**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Delyth Jewell AS
Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y
Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol

12 Mai 2023

Annwyl Delyth,

Y DU/Iwerddon/CE: Cytundeb Ariannu ar Raglen PEACE PLUS 2021-2027

Byddwch yn gwybod mai'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad sy'n gyfrifol am fonitro'r broses o weithredu cytundebau rhyngwladol nad ydynt yn ymwneud â masnach yn y Chweched Senedd.

Yn ystod ein cyfarfod ar 24 Ebrill 2023, trafodwyd y DU/Iwerddon/CE: Cytundeb Ariannu ar Raglen PEACE PLUS 2021-2027.Mae'r cytundeb hwn yn darparu mecanwaith i'r DU, Iwerddon a'r UE ariannu PEACE PLUS ar y cyd, rhaglen ariannu heddwch trawsffiniol yr UE. Bydd y cytundeb rhyngwladol hwn yn llywodraethu'r broses o weithredu rhaglen PEACE PLUS a chyfraniadau'r partïon.

Wrth drafod y cytundeb, gwnaethom gytuno i dynnu sylw'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, ato gan ein bod yn deall eich bod yn cynnal ymchwiliad i gysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon ar hyn o bryd. At hynny, gwnaethom gytuno i dynnu sylw'r Pwyllgor Cyllid a Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig at y cytundeb hwn gan fod y pwyllgorau hyn wedi gwneud gwaith ar drefniadau ariannu'r UE ar ôl Brexit, neu eu bod wrthi'n gwneud gwaith ar y trefniadau hyn.

Atodir ein hadroddiad diweddaraf er gwybodaeth i chi.

Yn gywir,

Huw

Huw Irranca-Davies

Cadeirydd